# Crynodeb Gweithredol o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022



Mehefin 2022

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Tudalen 3 | Cefndir |
| Tudalen 5 | Pa mor bell ydyn ni wedi dod? |
| Tudalen 7 | Beth wnaethom ni? |
| Tudalen 9 | Beth ddywedoch chi wrthym? |
| Tudalen 15 | Effaith y coronafeirws ar chwarae plant |
| Tudalen 17 | Beth ddywedodd yr asesiad wrthym? |
| Tudalen 22 | Beth ydym yn mynd i'w wneud? |
| Tudalen 23 | Blaenoriaethau ein cynllun gweithredu ar gyfer 2022 |

# Cefndir

*Llywodraeth Cymru yw'r llywodraeth gyntaf yn y byd i ddeddfu ar gyfer chwarae plant – mae'n cydnabod bod gan blant yr hawl i allu chwarae ac felly mae wedi ymrwymo i wella cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc chwarae'n ddiogel. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent hefyd yn cydnabod ac yn cefnogi'r hawl hon.*

Er mwyn dangos ei hymrwymiad, ym mis Tachwedd 2012 gosododd Llywodraeth Cymru ddyletswydd ar bob awdurdod lleol i asesu lefel y cyfleoedd chwarae yn ei ardal a chynhyrchu cynllun gweithredu cysylltiedig i wella'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael. Cwblhawyd Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chynllun gweithredu cyntaf Blaenau Gwent ym mis Mawrth 2013, gan gwblhau ail broses asesu yn 2016 a thrydedd yn 2019. Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn rhoi trosolwg o asesiad 2022.

Y diffiniad o chwarae a ddefnyddir at ddiben y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yw'r un a ddatblygwyd gan y sector chwarae ac a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae hwn yn datgan fel a ganlyn:

*'Mae chwarae'n ymddygiad y mae'r plentyn wedi'i ddewis o'i wirfodd, yn ei lywio ei hun ac yn ei wneud er ei fwyn ei hun. Mae'n cael ei wneud heb olwg ar unrhyw nod na gwobr allanol, ac mae'n rhan sylfaenol ac annatod o ddatblygiad iach – nid yn unig o ran y plant unigol, ond hefyd o ran y gymdeithas y maent yn byw ynddi.'*[1]

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod gan bob plentyn yr hawl i chwarae, a'i nod yw annog a chefnogi cymunedau i greu a datblygu amgylcheddau lle mae plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i chwarae a lle mae oedolion yn cydnabod ac yn cefnogi pwysigrwydd chwarae. Mae chwarae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant ac mae wedi'i ymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Yn dilyn pandemig diweddar y coronafeirws, rydym yn cydnabod bod diffyg cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc, neu gyfleoedd chwarae cyfyngedig, wedi cael effaith andwyol, gan effeithio ar eu hiechyd meddwl a chorfforol. Trwy chwarae, mae plant yn datblygu gwydnwch a hyblygrwydd, gan gyfrannu at les corfforol ac emosiynol. I blant eu hunain, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywydau. Mae angen lleoedd ac amser o safon ar gyfer chwarae ar blant a phobl ifanc ac mae ganddyn nhw hawl i hynny.

Mae gennym ni amgylchedd anhygoel ym Mlaenau Gwent sy'n adnodd gwerthfawr i gefnogi chwarae plant. Mae'r awdurdod lleol yn gwerthfawrogi pwysigrwydd chwarae i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd a'r manteision y mae hyn yn eu rhoi i gymunedau lleol. Rydym yn credu y dylai pob plentyn gael y rhyddid i chwarae'n rheolaidd y tu allan, yn egnïol ac yn annibynnol, yn agos i'w gartref. Mae llawer o rwystrau i alluogi chwarae plant, felly, er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd, mae angen i bob un ohonom weithio gyda'n gilydd.

Ein nod yw i Flaenau Gwent fod yn sir lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu gweld fwyfwy y tu allan yn mwynhau manteision chwarae. Mae'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn sicrhau bod gan yr awdurdod lleol fecanweithiau ar waith i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i rieni, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol gydnabod bod chwarae o bwysigrwydd mawr i fywydau plant, a bod gennym ni i gyd rôl.

Mae'r broses asesu yn nodi rhanddeiliaid allweddol ac yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid hynny i ystyried 101 o feini prawf ar draws naw maes mater i roi trosolwg o'r modd y caiff chwarae ei weld, ei gynllunio a'i ddarparu yn yr ardal.

**Mater A – Poblogaeth**

**Mater B – Diwallu anghenion amrywiol**

**Mater C – Y lle sydd ar gael i blant chwarae**

**Mater D – Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth**

**Mater E – Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae**

**Mater F – Mynediad i le/darpariaeth**

**Mater G – Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae**

**Mater H – Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi**


**Mater I – Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu**

[1] *Cymru: Gwlad sy'n Creu Cyfle i Chwarae: Canllawiau Statudol (Gorffennaf 2014)*

# Pa mor bell ydyn ni wedi dod?

Fel rhan o'r broses asesu, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ystyried nifer fawr o feini prawf yn ymwneud â chwarae a nodi a fyddai'n asesu'r sefyllfa bresennol ym Mlaenau Gwent i fod yn goch, melyn neu wyrdd (statws RAG) mewn perthynas â phob un. Mae statws RAG gwyrdd yn golygu bod y meini prawf yn cael eu bodloni, mae statws oren yn dangos bod cynnydd wedi'i wneud, ac mae statws coch yn nodi maen prawf nad ydym wedi gallu gwneud cynnydd yn ei gylch.

Mae'r siart isod yn dangos y cynnydd a wnaed dros y pedwar asesiad diwethaf, gyda'r gyfran fwyaf o feini prawf yn parhau i fod â statws RAG gwyrdd yn 2022.




Noder: 2013 a 2016 – 112 maen prawf, 2019 – 102 maen prawf, a 2022 – 101 maen prawf

Er bod mwyafrif y meini prawf wedi cael statws RAG gwyrdd, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen cynnal y rhain a bod lle i ddatblygu a gwella o hyd.

**Cynnydd y cynlluniau gweithredu 2016 – 2022**

Mae'r awdurdod lleol yn llunio cynlluniau gweithredu blynyddol. Mae'r tabl canlynol yn dangos faint o gamau gweithredu a nodwyd ym mhob blwyddyn a'r cynnydd mewn perthynas â'r rheini:

| | 2021 | 2020 | 2019 | 2018 | 2017 | 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y camau gweithredu | 16 | 10 | 13 | 12 | 21 | 26 |
| Bodlonwyd yn llawn | 11 | 10 | 9 | 9 | 13 | 17 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynnydd yn eu herbyn | 4 | 0 | 4 | 2 | 7 | 9 |
| Wedi'u gohirio/oedi | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 |

Mae rhai llwyddiannau nodedig wedi cynnwys:

- Gwella mynediad, diogelwch a gwerth chwarae mannau chwarae ar draws Blaenau Gwent
- Gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i ariannu sesiynau 'Prynu diwrnod ar gyfer chwarae' – cyflwynwyd chwe sesiwn hyd yma
- Dathlu'r gweithlu gwaith chwarae – cynhaliwyd seremoni wobrwyo ym mis Gorffennaf 2019
- Recriwtio gwirfoddolwyr chwarae cymunedol i gefnogi darpariaeth gwyliau
- Pedwar gwirfoddolwr chwarae yn cwblhau eu gwaith chwarae Lefel 3 ym mis Awst 2019
- Dau wirfoddolwr chwarae yn ennill Lefel 2 gwaith chwarae ym mis Awst 2019
- Treialu sesiynau 'aros a chwarae' ar gyfer plant / pobl ifanc ag anghenion ychwanegol
- Datblygu gwasanaeth i blant ag anableddau trwy Sparkle
- Cymunedau sy'n Creu Cyfle i Chwarae – tri yn cymryd rhan yn y rhaglen, ond yn anffodus wedi'i gohirio oherwydd y pandemig
- Datblygu darpariaeth chwarae mynediad agored yn ystod gwyliau ysgol
- Treialu prosiect Gwersylloedd Gwyllt ar gyfer plant mewn argyfwng (2021)
- Cynnal prosiect Gwersylloedd Gwyllt
- Lansio ail grŵp Wild Tots yng Nglynebwy
- Cynnal a pharhau i ddarparu grŵp Wild Tots Bedwellte
- Recriwtio dau arweinydd chwarae Lefel 3 (un ym mis Ionawr 2021 a'r llall ym mis Ionawr 2022)
- Cefnogi plant yn ystod y pandemig
- Cyflwyno rhaglen o weithgareddau ar gyfer pobl ifanc 0-25 oed drwy Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles 2021, gan ymgysylltu â dros 12,000 o blant a phobl ifanc









# Beth wnaethom ni?

Mae gan yr awdurdod lleol Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae penodedig sy'n gyfrifol am fonitro, adolygu, cynllunio a drafftio Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yr awdurdod lleol; ceir proses adrodd i Reolwr y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae a Rheolwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Plant, sef 'Grŵp Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'.

Sicrhaodd ymchwil bwrdd gwaith, cyfarfodydd wyneb yn wyneb, grwpiau ffocws, arolygon, galwadau ffôn a negeseuon e-bost ein bod yn cynnig ymagwedd hyblyg ac amrywiol i swyddogion arweiniol a'n partneriaid wrth gasglu data. Roedd cydweithwyr yn gallu cyfrannu yn eu meysydd arbenigedd a chynnig atebion i fylchau yn y data. Defnyddiwyd y data amlinellol canlynol ar gyfer pob mater:

Mater A – Poblogaeth: Mae'r adran hon yn cyflwyno data economaidd-gymdeithasol a demograffig a ddarparwyd gan Swyddog Polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, gwaith ymchwil a dadansoddi, a ffynonellau ar y we.

Mater B – Diwallu anghenion amrywiol: Wedi'i ategu gan yr ymatebion o'n harolwg chwarae mawr ar gyfer plant / pobl ifanc a grwpiau ffocws wedi'u targedu.

Mater C – Y lle sydd ar gael i blant chwarae: Bu'r data canlynol yn gymorth gyda'r adolygiad, gan gynnwys adroddiad arolygu blynyddol yr awdurdod lleol o ddarpariaeth chwarae sefydlog yn yr awyr agored heb staff, asesiadau mannau agored, y Cynllun Datblygu Lleol, mapiau systemau gwybodaeth ddaearyddol, gwybodaeth gymunedol leol, yr adran parciau, y Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, a chanfyddiadau arolygon / grwpiau ffocws.

Mater D – Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth: Gwybodaeth gan Dewis (Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd) gan ddarparwyr sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n cynnig darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth, ynghyd â gwybodaeth am y Blynyddoedd Cynnar, grwpiau rhieni a phlant bach, a chlybiau ar ôl yr ysgol sy'n cymryd rhan yn ein cynllun sicrhau ansawdd, tîm chwarae a gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol, a'r Ymddiriedolaeth Hamdden.

Mater E – Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae: Gwybodaeth a gedwir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a gwasanaethau a gynigir gan y tîm chwarae a'r awdurdod lleol. Cyllid Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru ar gyfer Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles.

Mater F – Mynediad i le/darpariaeth: Data a gwybodaeth a gedwir gan gydweithwyr o'r tîm Rheoli Traffig, Teithio Llesol a Diogelwch ar y Ffyrdd.

Mater G – Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae: Cedwir taenlen o gymwysterau yn y sector gan Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant yr awdurdod lleol a rhaglen hyfforddi flynyddol Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant.

Mater H – Ymgysylltu â’r gymuned a chymryd rhan ynddi: Data a gedwir gan dîm chwarae’r awdurdod lleol, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a strategaeth ymgysylltu Blaenau Gwent.


Mater I – Mae’r adran hon yn seiliedig ar ddogfennau polisi a strategol allweddol a gweithio gyda chydweithwyr ar draws gwahanol feysydd, gan gynnwys trafnidiaeth, addysg, partneriaethau, cynllunio, y Blynyddoedd Cynnar a Dechrau’n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, ac iechyd a diogelwch.


# Beth ddywedoch chi wrthym?


Gan ddefnyddio canllawiau gan Chwarae Cymru a Llywodraeth Cymru, creodd yr awdurdod lleol arolwg ar gyfer plant a phobl ifanc. Datblygwyd cwestiynau i fesur profiadau chwarae'r plant mewn perthynas â'r categorïau canlynol: yr amserol – sut mae plant yn treulio eu 'hamser rhydd'; y gofodol – sut mae gofod yn cefnogi neu'n cyfyngu ar chwarae plant a mynediad i ofod; a'r seicolegol – caniatâd i chwarae. Yn arolwg eleni, roedd cwestiynau hefyd yn ymwneud ag effaith pandemig y coronafeirws.

<u>Arolwg chwarae:</u>
Dosbarthwyd arolygon i blant a phobl ifanc trwy bartneriaid, ysgolion, digwyddiadau lleol, sesiynau chwarae, clybiau ar ôl yr ysgol a fersiwn ar-lein a hyrwyddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cymerodd 254 o blant ran yn yr arolwg…






Canfyddiadau'r arolwg:

Cwblhawyd 90% o arolygon gan blant rhwng 5 ac 14 oed, gyda'r cyfartaledd yn 8 oed.

Nododd 15 o blant eu bod yn anabl, gyda 60% o'r plant yn fodlon ar gyfleoedd i chwarae a chymdeithasu.

Roedd 77% yn teimlo bod ganddyn nhw fwy na digon neu ddigon o amser i chwarae neu dreulio amser gyda ffrindiau.

Dywedodd 20% o'r plant y gallant chwarae ym mhob man yr hoffent ei wneud.

Dywedodd 95% eu bod bob amser neu fel arfer yn teimlo'n ddiogel wrth chwarae allan, ac ystyriwyd bod oedolion yn gefnogol. Dangosodd y canfyddiadau fod plant 10-14 oed yn fwy tebygol o beidio â theimlo'n ddiogel.

Dywedodd 96 o blant nad oedden nhw'n cael chwarae allan ar eu pen eu hunain neu gyda ffrindiau, gyda 43 rhwng 8 a 15 oed.

Roedd y plant yn gallu enwi llawer o bethau oedd yn dda yn eu hardal. Soniodd llawer am chwarae mewn ardaloedd yn agos at eu cartrefi, chwarae gyda ffrindiau a oedd yn byw gerllaw, cyfleusterau hamdden, a mwynhau nodweddion naturiol fel caeau, coedwigoedd a mynyddoedd hefyd.




O ran yr hyn nad oedd cystal am chwarae yn eu hardal eu hunain, roedd y sylwadau'n tueddu i ddod o dan themâu: traffig, sbwriel/glendid, parciau a meysydd chwarae lleol, plant hŷn (sefyllian/bwlio), dim byd i'w wneud.




Mae cyflwr gwael mannau chwarae ac offer chwarae sefydlog yn parhau i fod yn un o brif themâu anfodlonrwydd wrth ymgynghori â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gyda 40% o'r plant yn nodi parciau fel y peth a oedd yn wael yn eu hardal.

<u>Grwpiau ffocws:</u>

I gyfoethogi data o ymatebion yr arolwg, cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda chwe chyngor ysgol, pedwar clwb ar ôl yr ysgol ac un grŵp ieuenctid. Er mwyn sicrhau bod grwpiau lleiafrifol o blant yn cael cyfle i gymryd rhan, sicrhaodd ein grwpiau ffocws fod gennym gynrychiolaeth o blith plant o ysgolion Cymraeg, plant ag anableddau, plant sy'n derbyn gofal a phlant sipsiwn/teithwyr. Cymerodd 120 o blant ran mewn gweithdy yn seiliedig ar weithgareddau, ac ymgynghorwyd â 221 o blant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr eraill yn ystod sesiynau chwarae.

Gofynnwyd i blant a phobl ifanc… (gweler y lluniau isod)

> Pam mae chwarae / bod gyda ffrindiau yn bwysig?
> Ble/beth maen nhw'n chwarae pan nad ydyn nhw yn yr ysgol? – melyn
> Beth sy'n dda amdanyn nhw? – gwyrdd
> Beth sy'n ddrwg amdanyn nhw? – pinc/coch
> Beth yw'r rhwystrau? – briciau
> Beth allwn ni ei wneud i leihau'r rhwystrau? A phwy yw e? Plant? Oedolion? – sêr

Ymgynghorwyd â 120 o blant trwy ein grwpiau ffocws, gan gynnwys plant ag anableddau, plant sipsiwn/teithwyr, plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n siarad Cymraeg. Ymgynghorwyd â 221 o blant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr eraill yn ystod sesiynau chwarae.

Canfyddiadau'r grŵp ffocws – beth ddywedodd plant wrthym?

- Pam mae chwarae / bod gyda ffrindiau yn bwysig? Roedd yr ymatebion yn cynnwys: gwella iechyd meddwl, cymdeithasu, ymarfer corff, hwyl, bod allan ym myd natur, ein hawl i chwarae, bod yn hapus, awyr iach.

- Ble/beth maen nhw'n chwarae pan nad ydyn nhw yn yr ysgol? Nododd y plant fannau yr oeddent yn eu chwarae ynddynt, gan gynnwys: parciau, mannau chwarae, canolfannau chwaraeon, coetir, strydoedd, y cartref, tai perthnasau a ffrindiau, mynydd, parc sglefrio, clybiau ar ôl yr ysgol, caeau.

- Beth sy'n dda amdanyn nhw? Rhoddodd nifer enghreifftiau o'r hyn a wnaethant: chwarae chwaraeon, beicio, chwarae gemau, sglefrfyrddio, dringo coed, pysgota, rhedeg, neidio, dringo, cerdded, gemau tag, mynd yn flêr, llawer o le, teimlo'n ddiogel.

- Beth sy'n ddrwg amdanyn nhw? Bwlis, plant hŷn, oedolion eraill, pobl ar hap, baw ci, gwydr wedi torri, sbwriel, dim byd i'w wneud.

- Beth yw'r rhwystrau? Gellid categoreiddio'r rhain yn dair prif thema: yr amserol – sut mae plant yn treulio eu 'hamser rhydd'; y gofodol – sut mae gofod yn cefnogi neu'n cyfyngu ar chwarae plant a mynediad i ofod; a'r seicolegol – caniatâd i chwarae.

- Beth allwn ni ei wneud i leihau'r rhwystrau? Roedd y cyfranogwyr yn gallu nodi'r hyn y gallent ei wneud eu hunain: 'gwisgo dillad addas', 'cario ffôn symudol', 'dysgu Rheolau'r Groes Werdd', 'mynd gyda ffrindiau', 'cerdded i ffwrdd', 'dweud wrth oedolyn', 'ffonio'r heddlu', 'codi sbwriel'.

Beth ddywedodd oedolion wrthym?

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd yn dda neu'n ddrwg am yr ardal ar gyfer chwarae allan, cafwyd cymysgedd o ymatebion, gyda llawer o rieni'n nodi'r hyn oedd yn gadarnhaol o ran byw'n agos at ardaloedd chwarae neu nodweddion naturiol fel ardaloedd glaswelltog / caeau, llynnoedd, coetiroedd ac ati, a bod yn agos at ardaloedd sy'n dda ar gyfer chwarae ynddynt.

Roedd y pethau negyddol yn cynnwys cynnal a chadw gwael mewn mannau chwarae a chyfleusterau cyfyngedig i blant o bob oed eu mwynhau, baw cŵn, ymddygiad gwrthgymdeithasol / fandaliaeth, a thraffig.

Pan ofynnwyd iddynt pam y gallent deithio y tu allan i'r ardal i chwarae, nododd rhieni'n rheolaidd gyflwr gwael ein mannau chwarae lleol. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

> *'Dim parciau glân gweddus yn yr ardal'*
> *'Mae angen diweddaru'r offer yn ein parc lleol'*
> *'Mae bob amser wedi gordyfu, gyda gwydr, sbwriel a fandaliaeth ym mhobman'*
> *'Prin ddim byd i blant hŷn chwarae arno, ac mae'r rhai iau yn diflasu'*


Drwy gydol y pandemig, pan na allai plant adael eu trefi a bod teithio wedi'i wahardd, roedd yn pwysleisio cyn lleied sydd gennym ym Mlaenau Gwent. Wrth i blant fynd yn hŷn (pan fyddant yn eu harddegau), mae'r diffyg cyfleusterau fel parciau beiciau, bowlio, cyrtiau tennis, cyrsiau ymosod, cyrsiau rhyfelwyr ninja, cyrsiau chwarae antur mewn coetir, tag laser, arcedau gemau/difyrrwch, parciau sblash, a chanolfannau sinema a bwyd yn cyfyngu ar gyfleoedd i chwarae a chymdeithasu. Mae diffyg cyfleoedd i blant a phobl ifanc yn aml yn ffocws ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae dyddiaduron chwarae, astudiaethau achos, ac arsylwadau yn ystod sesiynau chwarae hefyd wedi rhoi cipolwg ar ddiddordebau ac anghenion chwarae plant a phobl ifanc.

Wynebwyd heriau ac effeithiwyd ar ein hymgynghoriad ar gyfer yr asesiad hwn gan y pandemig, gyda chyfyngiadau ar fynediad ar gyfer ymgynghoriad wyneb yn wyneb mewn lleoliadau ac ysgolion a diffyg digwyddiadau cyhoeddus.

Mae'r data a gasglwyd wedi'i ddadansoddi ac mae'n helpu i lywio proffiliau 'chwarae' ein wardiau.

1. Abertyleri a Six Bells
2. Cendl
3. Blaenau
4. Bryn-mawr
5. Cwm
6. Cwmtyleri
7. Gogledd Glynebwy
8. De Glynebwy
9. Georgetown
10. Llanhiledd
11. Nant-y-glo
12. Rasa a Garnlydan
13. Sirhywi
14. Tredegar



Lle bo data cyfyngedig ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn canolbwyntio ar ymgysylltu i sicrhau bod darlun cywir ar gyfer chwarae yn cael ei sefydlu ar gyfer pob ardal. Bydd yr awdurdod lleol a'i bartneriaid yn meintioli a sgorio lefel y cyfleoedd ac yn defnyddio'r data i lywio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol, gan sicrhau bod bylchau mewn cyfleoedd chwarae yn cael eu blaenoriaethu.

# Effaith y coronafeirws ar chwarae plant


Er bod rhywfaint o effaith yn cyfyngu ar gynnydd camau gweithredu lefel uwch i gefnogi'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, bu rhai cyfleoedd na fyddent wedi cael eu datblygu heb arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, a roddwyd i ymateb i effeithiau'r pandemig a phroffil uwch chwarae yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae tystiolaeth yn awgrymu (https://senedd.cymru/media/fy4cfvbg/cr-ld14286-w.pdf a https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_CYM.pdf) bod cyfyngiadau ar y lle i chwarae a'r caniatâd i wneud hynny yn ystod y pandemig diweddar wedi cael effaith sylweddol ar iechyd a lles plant a phobl ifanc – yn gorfforol, yn feddyliol ac yn gymdeithasol.

Heb os, mae cau ysgolion a'r cyfyngiadau ar leoliadau gofal plant a chwarae a darparwyr hamdden wedi cael effaith aruthrol ar allu plant i fanteisio ar gyfleoedd chwarae. Gosododd y pandemig gyfyngiadau difrifol ar gyfleoedd i blant gymdeithasu y tu allan i'w teulu agos a'u dosbarthiadau ysgol am o leiaf rywfaint o'r amser.


Cydnabyddir yn eang bod chwarae plant yn hanfodol i gynorthwyo adferiad yn dilyn y pandemig, gyda mwy o ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth o werth a buddion chwarae. Dangosodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i helpu i ailadeiladu hyder plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i integreiddio yn ôl i'r gymuned trwy gyllido'r rhaglenni Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles.

Gofynnodd arolygon ddau gwestiwn penodol yn archwilio effaith y pandemig ar gyfleoedd plant i chwarae: *'A yw COVID-19 wedi effeithio ar sut rydych chi'n chwarae fel arfer?'* ac, os ydyw, *'Sut?'*




Nododd 16.5% o'r ymatebion nad oedd cyfyngiadau'r coronafeirws a'r cyfyngiadau symud wedi cael effaith ar sut roedden nhw'n chwarae fel arfer. Er hynny, gall fod rhai anghysondebau posibl ar draws yr ymatebion i'r arolwg gan fod 18 o'r rhain, pan ofynnwyd iddynt ehangu, wedi nodi *'Roedd yn rhaid i mi aros i mewn'* neu *'Ni chaniateir i mi fynd allan'*.

Methu â gweld ffrindiau oedd yr ymateb â thema uchaf wrth ofyn sut roedd y coronafeirws wedi effeithio arnynt, ac yna peidio â mynd allan a chau gwasanaethau a chyfleusterau.




Gan gydnabod yr effaith ar lesiant plant a phobl ifanc, datblygodd tîm chwarae'r awdurdod lleol brosiect newydd, 'Gwersylloedd Gwyllt', gan adeiladu ar lwyddiant ein grwpiau Wild Tots. Cefnogodd y tîm chwarae Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod haf 2020 i gynnig rhai sesiynau chwarae yn ystod gwyliau haf yr ysgol mewn cymunedau lleol. Roedd presenoldeb yn y sesiynau hyn yn adlewyrchu amharodrwydd teuluoedd i deimlo'n hyderus i ddefnyddio gwasanaethau ar yr adeg hon. Mae'r coronafeirws a'r cyfyngiadau symud wedi dwysáu ofnau plant a theuluoedd o fod yn yr awyr agored, o faw ac afiechyd, ac o gysylltiad â phobl eraill. Pa mor rhesymol bynnag yw hyn, mae'n rhaid ei gydbwyso yn erbyn y risgiau i iechyd a lles corfforol a meddyliol plant o fod dan do ac i ffwrdd oddi wrth eu ffrindiau am gyfnodau hir o amser. Trwy annog a chefnogi plant i chwarae yn yr amgylchedd naturiol, a thrwy weithio gydag oedolion i egluro manteision chwarae ar gyfer iechyd a lles, dysgu a gwytnwch plant, rydym yn gallu mabwysiadu agwedd gytbwys.

Gwelodd ein grŵp rhieni a phlant bach Wild Tots gynnydd sylweddol mewn teuluoedd cofrestredig (400+) ar ôl cau yn ystod y pandemig. Roedd y galw mor uchel fel bod yr awdurdod lleol, yn hytrach na throi teuluoedd i ffwrdd, wedi cynnig sesiwn ychwanegol i ateb y galw. Ar ben hynny, cynigiwyd sesiynau am ddim i gydnabod yr heriau yr oedd llawer o deuluoedd wedi'u hwynebu yn ystod y pandemig a'r pwyslais ar gyfleoedd i fod yn yr awyr agored. Mynegodd teuluoedd sut roedd eu plant wedi colli cyfleoedd i chwarae ac i gymdeithasu â phlant eraill ac, i rieni newydd a oedd yn teimlo'n unig ac yn ynysig, gwerthfawrogwyd yn fawr y cyfle i chwarae, i fod yn yr awyr agored, i gwrdd ag eraill, ac i gael sgwrs am eu babi newydd. Daeth un rhiant gyda phlentyn 9 mis oed i ofyn, *'Beth ddylwn i ei wneud?'* Yr ateb oedd, *'Eisteddwch eich plentyn i lawr [yn y mwd] a chymerwch ddau gam yn ôl!'*



# Beth ddywedodd yr asesiad wrthym?

Gyda'r pedwerydd Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn, bu'n bosibl nodi lle mae cynnydd wedi'i wneud yn erbyn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae diwethaf, a gwblhawyd yn 2019, drwy gymharu'r sgoriau RAG o dan bob maes mater. Bu cynnydd ym mhob maes mater unigol ac mae hyn yn arwydd o faint o waith a wnaed yn y blynyddoedd ers hynny i godi proffil chwarae a lefel uchel o weithio mewn partneriaeth ar draws adrannau a sefydliadau. Mae rhai o ganfyddiadau allweddol yr asesiad yn cynnwys:

Mater A: Poblogaeth

Mae proffil ward o boblogaeth y rhai 0-18 oed wedi'i goladu i gynorthwyo'r awdurdod lleol i nodi lle mae'r angen mwyaf am gyfleoedd chwarae. Defnyddir data i ddatblygu rhaglenni ymgynghori yn y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn parhau i gynyddu ein cyswllt â phlant a phobl ifanc, ac i hyrwyddo ymgysylltu â datblygu darpariaeth chwarae yn y dyfodol. Mae'r wybodaeth ar gael i'r holl bartneriaid, sefydliadau a rhanddeiliaid ar draws Blaenau Gwent er mwyn lleihau dyblygu, gwneud y mwyaf o adnoddau, a sicrhau bod cyfleoedd chwarae'n diwallu'r angen mwyaf.

Mater B: Diwallu anghenion amrywiol

Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran creu darpariaeth ar gyfer plant ag anableddau, ond mae rhagor o waith i'w wneud o hyd i gynnal archwiliadau mynediad o'r holl ddarpariaeth chwarae er mwyn rhoi dealltwriaeth dda inni o'r hyn sydd ar gael ym Mlaenau Gwent. Mae rhaglenni Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles 2021 Llywodraeth Cymru wedi galluogi'r awdurdod lleol i weithio mwy gyda phlant ag anableddau a phlant sipsiwn/teithwyr.

Mater C: Y lle sydd ar gael i blant chwarae

Mae gan Flaenau Gwent nifer fawr o fannau agored a mannau chwarae dynodedig. Fodd bynnag, mae'n amlwg yn sgil y broses o asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae ac adolygiad yr awdurdod lleol fod angen dirfawr am fuddsoddiad sylweddol mewn mannau chwarae sefydlog. Mae llawer o dystiolaeth i ddangos bod lefel uchel o anfodlonrwydd â mannau chwarae sefydlog ym Mlaenau Gwent. Soniodd oedolion a phlant am sbwriel, offer wedi torri, traffig a fandaliaeth fel rhwystrau i gael mynediad i fannau chwarae. Mae cyflwr gwael y mannau chwarae yn rhywbeth y mae'r awdurdod lleol wedi'i gydnabod yn ei adolygiad o fannau chwarae a gynhaliwyd yn 2018. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn ffodus i fod wedi derbyn cyllid Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan am yr ychydig flynyddoedd diwethaf, sydd wedi'i ddefnyddio i wneud gwaith adnewyddu ac ailosod rhai eitemau o offer chwarae sefydlog, ond, gan fod cyllid yn gyfyngedig, mae hyn yn gam bach yn unig ar y ffordd i fynd i'r afael â'r broblem fawr hon.

Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod diffyg amrywiaeth i blant (yn enwedig plant hŷn); mae hyn yn aml yn cael ei leisio ar y cyfryngau cymdeithasol ac fe'i hadlewyrchir yn y grwpiau ffocws a'r ymgynghoriad ar gyfer yr asesiad hwn. Mae pryder cynyddol hefyd ar draws Blaenau Gwent mewn perthynas â'r cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd diffyg cyfleusterau a gwasanaethau.

Mae angen:

- Ystyried mwy o offer nad ydynt yn rhagnodol, y gellir eu defnyddio'n hyblyg i ddiwallu anghenion niferoedd mawr o blant ag anghenion a galluoedd gwahanol
- Hyrwyddo'r defnydd o fannau agored a gwyrdd ar gyfer chwarae, a all gynnig cyfleoedd gwell weithiau i blant chwarae'n greadigol
- Creu mwy o amrywiaeth ar gyfer opsiynau chwarae plant a phobl ifanc (fel y lleisiwyd gan rieni yr ymgynghorwyd â nhw) drwy ddenu buddsoddiadau a chwmnïau allanol
- Treialu'r rhaglen Cymunedau sy'n Creu Cyfle i Chwarae i nodi mannau agored a gwyrdd lleol y gellir eu defnyddio i hyrwyddo chwarae creadigol, egnïol ac anturus
- Datblygu mentrau i godi ymwybyddiaeth o chwarae plant

Mater D: Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth

Gellir categoreiddio darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth ym Mlaenau Gwent fel a ganlyn:

- Darpariaeth chwarae (clybiau ar ôl yr ysgol / clybiau gwyliau / darpariaeth mynediad agored)
- Gweithgareddau ieuenctid (gemau stryd / clybiau)
- Gweithgareddau hamdden (grwpiau chwaraeon / celfyddydau / diwylliannol / mewn lifrai)




Mae chwe lleoliad chwarae â staff sydd wedi'u cofrestru gydag AGC ym Mlaenau Gwent sy'n darparu clybiau ar ôl yr ysgol a chlybiau gwyliau a thirwedd amrywiol o ddarparwyr, grwpiau a sefydliadau sy'n cynnig gweithgareddau chwarae ar ôl y diwrnod ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae ymrwymiad cryf i sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd chwarae da, ond mae hyn yn aml yn wynebu'r her o gynnig gwasanaeth gofal plant i rieni. Mae pedwar clwb ar ôl yr ysgol ym Mlaenau Gwent wedi cau ers 2020 yn dilyn y pandemig ac mae nifer o resymau am hyn, gan gynnwys pryderon o ran cynaliadwyedd oherwydd diffyg defnyddwyr gwasanaeth, gyda mwy o rieni yn gweithio gartref ac yn gweithio oriau hyblyg ac felly yn llai dibynnol ar gofal ar ôl yr ysgol, cynaliadwyedd ariannol yn dilyn y pandemig, a recriwtio staff.

Mae angen:


- Chwilio am ffyrdd o ddatblygu darpariaethau chwarae mynediad agored a arweinir gan y gymuned
- Adolygu cyfleoedd pellach i gynyddu gweithgareddau chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc

Mater E: Taliadau ar gyfer darpariaeth chwarae

Cynigir cymorth i blant ag anghenion ychwanegol sydd wedi'u hatgyfeirio drwy'r Panel Anghenion Ychwanegol, a chynigir lleoedd â chymorth hefyd i blant o aelwydydd di-waith sy'n bodloni'r meini prawf. Cynigir darpariaethau di-dâl ar draws yr awdurdod lleol drwy sesiynau chwarae mynediad agored, digwyddiadau cymunedol, a sesiynau a gyflwynir gan raglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Mae Barnardo's yn cynnig rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau chwarae i blant ag anableddau, a threfnir rhai gweithgareddau cost isel gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin. Mae rhaglenni Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles Llywodraeth Cymru yn 2021 wedi helpu'r awdurdod lleol i ymateb i adborth a dderbyniwyd gan blant, pobl ifanc a rhieni bod angen mwy o weithgareddau di-dâl / cost isel.

Mater F: Mynediad i le/darpariaeth a gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a digwyddiadau

Mae chwarae yn rhan sylfaenol ac annatod o ddatblygiad iach, nid yn unig ar gyfer plant unigol, ond hefyd ar gyfer y gymdeithas y maent yn byw ynddi. Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn cydnabod bod chwarae'n hanfodol i iechyd a lles plant. Yn y gorffennol, mae chwarae plant wedi cael ei ystyried yn ddarpariaeth seiliedig ar gyfleusterau, ond derbynnir bellach mai mater amgylcheddol ydyw, h.y. creu'r math o amgylchedd lle gall plant fynd allan a chwarae gyda'u ffrindiau. Mae creu amgylchedd mwy cyfeillgar i blant yn gallu creu llawer mwy o gyfleoedd ar gyfer chwarae nag y gallai darpariaeth ar ffurf cyfleusterau eu creu ar ei phen ei hun. Fodd bynnag, mae plant ac oedolion yn gwerthfawrogi darpariaeth ar ffurf cyfleusterau, gan ei bod yn darparu gwasanaeth i rieni sy'n gweithio (clybiau brecwast / clybiau ar ôl yr ysgol / clybiau gwyliau) a mannau chwarae penodedig (mannau chwarae sefydlog / meysydd chwarae).



Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, y cyfryngau cymdeithasol a'r cyfleuster chwilio ar-lein, yn ogystal ag opsiynau e-bost a ffôn, yn darparu gwybodaeth am ddarpariaeth chwarae, gweithgareddau a digwyddiadau, ond nid yw hyn yn gyflawn ac mae'n dibynnu ar swyddogion, clybiau unigol a sefydliadau yn darparu gwybodaeth am wasanaethau, digwyddiadau a gweithgareddau penodol.

Mae angen:

- Diweddaru gwybodaeth 'chwarae' ar adran ddynodedig y wefan gorfforaethol yn rheolaidd
- Rhannu astudiaethau achos o fentrau a arweinir gan y gymuned i gefnogi chwarae plant
- Darparu gwybodaeth i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd sy'n cysylltu â'r ystod lawn o gyfleoedd chwarae i blant a theuluoedd
- Hyrwyddo agweddau cadarnhaol at chwarae wrth ymgysylltu â chymunedau lleol a'r cyfryngau
- Gwella'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd a defnyddio'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a swyddfa'r wasg i gyfathrebu'n effeithiol

<u>Mater G: Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae</u>

Mae'r awdurdod lleol yn ffodus i fod â Swyddog Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a Swyddog Datblygu Busnes sy'n cefnogi'r sector ac yn datblygu'r gweithlu chwarae a gwaith chwarae, gan gynnwys gweithwyr sesiynol a gwirfoddolwyr. Mae nifer o staff allweddol mewn meysydd gwasanaeth penodol (e.e. Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Hamdden, Gwasanaeth Ieuenctid, yr Amgylchedd, Adfywio, Cynllunio) y mae eu gwaith yn cyfrannu at chwarae plant.

Mae angen:

- Comisiynu/cynnig sesiynau ymwybyddiaeth hyfforddi am chwarae ar gyfer gweithwyr proffesiynol a phenderfynwyr allweddol
- Ystyried dull gweithredu ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill i ddarparu hyfforddiant a chymorth i'r gweithlu chwarae

<u>Mater H: Ymgysylltu â'r gymuned a chymryd rhan ynddi</u>

Mae gan yr awdurdod lleol ymrwymiad cryf i wneud Blaenau Gwent yn fan lle mae pob dinesydd yn cael ei drin fel aelod gwerthfawr o'r gymuned a lle mae llais pob dinesydd yn cael ei glywed a'i anghenion yn cael eu hystyried ar draws yr ystod o feysydd llunio polisi. Gall y gost o ryngweithio â chymunedau unigol fod yn uchel iawn, felly mae angen i'r awdurdod lleol barhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod mecanwaith cadarn yn cael ei roi ar waith i leihau dyblygu a sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod cyfranogiad plant ar ei fwyaf effeithiol pan fo'r materion i'w hystyried yn uniongyrchol berthnasol iddynt o fewn eu cymunedau a gallant weld bod eu mewnbwn wedi gwneud gwahaniaeth.

Mae angen:

- Datblygu cysylltiadau gyda phartneriaid i sicrhau bod chwarae yn thema reolaidd ar gyfer ymgysylltu
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod mecanwaith cadarn yn cael ei roi ar waith i leihau dyblygu a chael y canlyniadau gorau

Mater I: Chwarae yn unol â phob polisi perthnasol ac agenda weithredu

Mae chwarae wedi'i wreiddio ym mholisïau ac agendâu gweithredu'r awdurdod lleol ar gyfer iechyd a lles, tlodi plant, mentrau Blynyddoedd Cynnar / gofal plant a mentrau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Ym maes addysg, mae llawer o ysgolion wedi datblygu amgylcheddau chwarae diddorol ac ysgogol. Mae ysgolion yn annog plant i feicio i'r ysgol lle mae'n ymarferol iddynt wneud hynny ac mae chwarae'n cael ei hyrwyddo'n weithredol yn ystod egwyl y bore, y prynhawn ac amser cinio, wedi'i gefnogi a'i hyrwyddo trwy raglen wobrwyo 'Ysgolion sy'n Creu Cyfle i Chwarae' tîm y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae. Mae angen parhau i gyflwyno'r rhaglen hon i ysgolion ar draws Blaenau Gwent yn dilyn y pandemig.

Cynllunio: Mae datblygiadau tai sylweddol ar draws Blaenau Gwent ond mae ystyried anghenion chwarae plant a'u teuluoedd yn parhau i fod yn her. Mae unrhyw amodau o gwmpas adran 52 yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer ysgolion ac mae pryderon y byddai cynnwys cyllid ar gyfer chwarae yn peryglu gwerthu safleoedd.

Mae angen:

- Datblygu cysylltiadau gyda chynllunwyr i sicrhau bod anghenion chwarae plant yn cael eu hystyried ym mhob datblygiad tai
- Datblygu cynllun pum mlynedd i ddenu buddsoddiad ar raddfa fwy i ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae a chymdeithasu yn eu cymunedau lleol
- Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i archwilio ei holl agendâu polisi ar gyfer eu heffaith bosibl ar gyfleoedd plant i chwarae, ac asesu pa dargedau a chamau gweithredu sydd eu hangen i wella cyfleoedd chwarae plant



# Beth ydym yn mynd i'w wneud?

Mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn parhau â'u hymrwymiad i ddatblygu cyfleusterau chwarae a mannau chwarae i blant ymhellach, gan ymestyn yr ystod o ddarpariaeth chwarae mynediad agored a sicrhau bod cyfleoedd yn parhau i gefnogi a hyrwyddo anghenion a diddordebau chwarae plant ar draws Blaenau Gwent. Mae cynllun gweithredu'r awdurdod lleol ar gyfer digonolrwydd cyfleoedd chwarae wedi'i ddatblygu i gynnal y cryfderau a mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn yr asesiad.

Mae'r cynllun gweithredu sydd gennym ar gyfer 2022 wedi'i ddatblygu drwy drafodaethau â rhanddeiliaid a phartneriaid, gan ystyried y canlynol:

- A yw hwn yn angen dybryd?
- A yw'n debygol iawn y gallwn wneud gwahaniaeth mawr drwy fynd i'r afael â'r cam hwn?
- A yw'r cam gweithredu yn mynd i'r afael ag anghenion chwarae grŵp agored i niwed?
- A oes gennym ni'r gallu i weithio ar y cam hwn?
- A allwn ni ddechrau gweithio ar hyn ar unwaith?

Mae'r awdurdod lleol hefyd yn ystyried:

- A oes unrhyw rai o'n partneriaid yn gweithio ar hyn eisoes y gallem weithio gyda nhw neu eu cefnogi?
- Beth yw goblygiadau cost y cam gweithredu hwn?
- Beth yw manteision y weithred hon?
- A oes gennym ni'r sgiliau a'r arbenigedd yn lleol i fynd i'r afael â'r cam gweithredu?

Nid cyfrifoldeb unrhyw un adran yw cyflawni'r camau gweithredu yn y cynllun ac maent yn ddibynnol iawn ar weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Mae rhai agweddau hefyd yn dibynnu ar ffynonellau allanol o arian grant tymor byr eu natur, a allai effeithio ar gynaliadwyedd rhai o'r camau gweithredu.

# Blaenoriaethau ein cynllun gweithredu ar gyfer 2022

| |
|---|
| 1. Cefnogi cymunedau lleol i ddatblygu cyfleoedd chwarae |
| 2. Cyflwyno gweithdai ar gyfer Blwyddyn 11 a grwpiau cymunedol ar ofal plant a chwarae fel gyrfa |
| 3. Parhau i siarad a gwrando arnoch chi |
| 4. Nodi cymunedau lleol i dreialu lansiad y rhaglen Cymunedau sy’n Creu Cyfle i Chwarae |
| 5. Cefnogi ysgolion i ddarparu a datblygu cyfleoedd ar gyfer chwarae |
| 6. Cyflwyno rhaglen o weithgareddau am ddim i blant a phobl ifanc 0-25 oed trwy raglen ‘Haf o Hwyl’ Llywodraeth Cymru |
| 7. Recriwtio gwirfoddolwyr chwarae cymunedol i gefnogi cyflwyno cyfleoedd chwarae |
| 8. Cydlynu dathliadau Blaenau Gwent ar gyfer Diwrnod Chwarae Cenedlaethol ar 3 Awst 2022 gyda’r thema ‘Popeth i chwarae amdano – adeiladu cyfleoedd chwarae i bob plentyn’ |

We are a play friendly county

Yr ydym yn Sir cyfellgar a chwarae